# ROBERT (ab) IFAN neu ROBERT IFANS, (fl. c. 1572-1603), prydydd ac uchelwr

**Enw:** Robert (Ab) Ifan
**Rhiant:** Marged ferch Huw ap Rhys
**Rhiant:** Ifan ap Wiliam
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** prydydd ac uchelwr
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Rhiannon Francis Roberts

o Frynsiencyn yn sir Fôn. Ceir ei ach yn llawn yn Pen. MS. 158 ar ddiwedd y copi diddorol a wnaeth iddo'i hun (ym mis Mai 1587) o gynnwys gramadegau'r beirdd, etc.; dywed yno mai enw ei fam oedd Marged, ferch Huw ap Rhys o Fysoglen (Maesoglan), ac eglura sut y daeth ei dad, Ifan ap Wiliam, yn berchennog tir yn sir Fôn. Canodd yn bennaf i rai o uchelwyr sir Fôn a sir Ddinbych, yn eu plith Salbriaid Llewenni, a cheir marwnadau ganddo i Catrin o'r Berain, a Siôn Tudur. Ceir peth o'i waith yn ei law ef ei hun yn Christ Church MS. 184 (am gopi ffotostat o'r llawysgrif hon gweler N.L.W. MSS. 6495-6) ac yn Pen. MS. 72. Enwir ' Robert Ifan lân lonydd ' yng nghywydd Thomas Prys ' i yrru yr Eryr at brydyddion i neges ' (J. Fisher, *The Cefn Coch MSS.* 1899, 23).

## Awdur

**Rhiannon Francis Roberts**, (1923 - 1990)

## Ffynonellau

*Gramadegau'r Penceirddiaid* (1934), 1934, xvi, 1, et passim

*Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600*, ii, 2, 80, iii, 3, 144, 158

*Additional Manuscripts in the British Museum* 14879, 14998

*Cardiff Manuscripts* 21-2, 64

*Llawysgrif Havod yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd* 3

*Jesus College Manuscripts* 15, 18

Archifau LlGC: Llanstephan MS 54: Poetry

Archifau LlGC: Llanstephan MS 122: Poetry

Archifau LlGC: Llanstephan MS 124: Poetry

Archifau LlGC: Llanstephan MS 125: Poetry

*Llawysgrifau Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 131, 147

*Llawysgrifau Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 75, 93, 124

*NLW MSS* 435, 6494

*Llawysgrifau Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 11, 312

*Llawysgrifau Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 3, 6

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Robert Ifan

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18535895

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu